



edexcel 

Unedau

Dyfarniadau Cyntaf BTEC

**Edexcel Lefel 2 BTEC Tystysgrif/Tystysgrif Estynedig/
Diploma mewn Celf a Dylunio**

I'w haddysgu gyntaf Medi 2010

Gorffennaf 2011



Translated by: Steffan Alun

Proofread by: Catrin Alun

Cynnwys

Uned 1:	Cyfeiriadau Cyd-destunol mewn Celf a Dylunio	1
Uned 2:	Cyfathrebu Gweledol 2D	5
Uned 3:	Cyfathrebu Gweledol 3D	9
Uned 4:	Defnyddio Syniadau i Ymchwilio, Datblygu a Chynhyrchu Celf a Dylunio	13
Uned 5:	Adeiladu Portffolio Celf a Dylunio	19
Uned 6:	Gweithio yn y Diwydiant Celf a Dylunio	23
Uned 7:	Gweithio gyda Briffiau Dylunio Graffeg	27
Uned 8:	Gweithio gyda Briffiau Ffotograffiaeth	33
Uned 9:	Gweithio gyda Briffiau Dylunio Ffasiwn	39
Uned 10:	Gweithio gyda Briffiau Tecstilau	45
Uned 11:	Gweithio gyda Briffiau Dylunio 3D	49
Uned 12:	Gweithio gyda Briffiau Cyfryngau Rhyngweithiol	53
Uned 13:	Gweithio gyda Briffiau Celf Weledol	59
Uned 14:	Gweithio gyda Briffiau Dylunio Crefftau 3D	65
Uned 15:	Gweithio gyda Briffiau Celf a Dylunio Digidol	71
Uned 16:	Gweithio gyda Briffiau Cyfwisgoedd	77
Uned 17:	Gweithio gyda Briffiau Delweddau Symudol	83
Uned 18:	Gweithio gyda Briffiau Penodol i Safle	87

Uned 1: Cyfeiriadau Cyd-destunol mewn Celf a Dylunio

Cod yr uned:	J/502/4819
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gallu dysgwyr i ymchwilio ac archwilio gwahanol agweddau ar gelf, crefft a dylunio o ffynonellau cyfoes, hanesyddol a diwylliannol. Bydd dysgwyr yn defnyddio eu dealltwriaeth gyd-destunol i gyfarwyddo ac ysbrydoli eu gwaith creadigol parhaus. Byddant yn datblygu eu sgiliau cyflwyno drwy drefnu ac arddangos canfyddiadau eu hymchwil.

Cyflwyniad i'r uned

Rhaid i artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr wybod am y datblygiadau creadigol a diwylliannol cyfoes a hanesyddol diweddaraf er mwyn cyfleu eu syniadau'n effeithiol. Mae rhan fawr o hyn yn ymwneud ag astudio gwaith celf, ond mae hefyd yn cynnwys datblygiadau cymdeithasol, gwleidyddol a thechnolegol a'u heffaith ar gelf, crefft a dylunio.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ymchwil ar draws amrywiaeth eang o wybodaeth a chyfeiriadau, gan ddarparu ysbrydoliaeth i greu a datblygu eu syniadau eu hunain. Byddant yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ddewis, trefnu a chofnodi lluniau a gwybodaeth berthnasol. Bydd dysgwyr yn cydnabod ffyrdd y gall eu hymchwil gyd-destunol eu helpu i ddatblygu eu sgiliau ymarferol eu hunain yn eu hastudiaethau parhaus. Bydd rhaid i ddysgwyr gynhyrchu tystiolaeth o ymchwil o brofiad uniongyrchol lle bo'n bosib. Gall hyn olygu gweithio gydag ymarferwyr proffesiynol ac ymweld ag orielau, amgueddfeydd ac arddangosfeydd. Bydd rhaid i ddysgwyr gasglu delweddau o'r ffynonellau hyn ac eraill megis llyfrau, DVD, CD-ROM, y rhyngwrwd a chylchgronau a siwrnalau celf o safon. Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i ddewis a dadansoddi lluniau a gwrthrychau cyd-destunol at ddibenion gwahanol i gyfeirio eu gwaith eu hunain.

Wrth astudio gwaith celf, crefft a dylunio eraill, bydd rhaid i ddysgwyr archwilio sut mae artistiaid yn defnyddio iaith, deunyddiau a chyfryngau gweledol i gyfleu syniadau. Mae'r uned hon yn adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o wneud marciau a sgiliau gwneud a ddatblygwyd yn *Uned 2: Cyfathrebu Gweledol 2D* ac *Uned 3: Cyfathrebu Gweledol 3D*. Byddant yn defnyddio eu dealltwriaeth o elfennau ffurfiol wrth ddadansoddi gwaith pobl eraill er mwyn cydnabod a chofnodi sut mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn defnyddio iaith weledol i gyfleu eu syniadau.

Bydd rhaid i ddysgwyr gofnodi eu hymchwil yn weledol ac yn ysgrifenedig. Bydd rhaid iddynt ddewis yn briodol o'u hastudiaethau ymchwil ac archwilio. Dylid ystyried arddangosiad cofnodion gweledol a nodiadau'r dysgwyr yn ofalus.

Drwy astudio gwahanol agweddau ar gelf, crefft a dylunio, mae'r uned hon yn cynnig y cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o faterion moesegol, moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gwybod am ddylanwadau celf hanesyddol a chyfoes a datblygiadau dylunio
- 2 Gallu defnyddio cyfeiriadau hanesyddol a chyfoes i gefnogi ymchwil a datblygu ei ymateb ei hun
- 3 Gallu cyflwyno gwybodaeth am y gwaith a astudiwyd ar fformat priodol.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am ddylanwadau celf hanesyddol a chyfoes a datblygiadau dylunio

Dylanwadau: mudiadau allweddol; artistiaid e.e. arddulliau, ysgolion ac unigolion; diwylliannau (gorllewinol, y tu hwnt i'r gorllewin, tebygrwyddau, gwahaniaethau); hanesyddol; cyfoes; gwaith dethol; cyd-destun ehangach; cynhyrchu creadigol e.e. economaidd, cymdeithasol; deunyddiau; technegau; prosesau; elfennau ffurfiol e.e. cyfleu syniadau, teimladau; ar ei waith ei hun; ar waith eraill

Datblygiadau celf a dylunio hanesyddol: e.e. arddangosfeydd, amgueddfeydd, hanesion, siwrnalau, dyddiaduron, llyfrau braslunio, dogfennau, llyfrau, cofnodion

Datblygiadau celf a dylunio cyfoes: e.e. arddangosfeydd cyfredol a diweddar, sioeau, artistiaid byw dylunwyr, crefftwyr, digwyddiadau, orielau, amgylchedd gweledol, agoriadau, adroddiadau, cyhoeddiadau, comisiynau, cyfrifon, contractau, straeon newyddion, cyhoeddiadau, porthwyr RSS, blogiau, siwrnalau, gwefannau, tiwtorialau ar-lein

2 Gallu defnyddio cyfeiriadau hanesyddol a chyfoes i gefnogi ymchwil a datblygu ymateb ei hun

Cyfeiriadau: ffynonellau cynradd e.e. gwaith celf gwreiddiol, peintiadau, printiau, gwaith ar sgrin, ffotograffau, arteffactau, oriel, gweithdy, ymweliadau, amgueddfeydd, artistiaid/gweithwyr proffesiynol yn ymweld; ffynonellau eilaidd e.e. atgynyrchiadau, copïau, llyfrau, cylchgronau, siwrnalau, y rhyngwyd

Cofnodi: e.e. anodi, braslunio, astudio, ffotograffau ei hun; casglu lluniau parod e.e. cardiau post, taflenni; cyfweld â phobl e.e. recordio llais, recordio fideo

Ein hymateb ni: defnyddiwch waith eraill i gyfeirio a datblygu eich syniadau eich hun; sylwadau e.e. ar waith artistiaid, ar ddylanwadau, ar syniadau, ymagweddau, technegau

3 Gallu cyflwyno gwybodaeth am y gwaith a astudiwyd ar fformat priodol

Gwybodaeth bresennol: beirniadaeth bersonol; sylwebaeth; tystiolaeth ategol

Am y gwaith: e.e. cefndir, cofiant, manylion perthnasol; cynhyrchu creadigol; deunyddiau; prosesau; elfennau ffurfiol; iaith weledol e.e. cyfathrebu, syniadau, gwybodaeth, teimladau, bwriad creadigol

Fformat priodol: e.e. astudiaeth achos, lluniau anodedig mewn ffeil neu lyfr braslunio, cyflwyniadau llafar gyda delweddau, fideo, gwefan, blog, blog fideo, podlediad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 rhestru dylanwadau celf hanesyddol a chyfoes a datblygiadau dylunio [YA, CE]	T1 esbonio dylanwadau celf hanesyddol a chyfoes a datblygiadau dylunio perthnasol	Rh1 dadansoddi dylanwadau celf hanesyddol a chyfoes a datblygiadau dylunio
LI2 defnyddio ymchwil gyd-destunol i gefnogi datblygu ei ymateb ei hun [YA, MC, HR]	T2 gwneud cysylltiadau rhwng ffynonellau ymchwil gyd-destunol i gefnogi datblygu ei ymateb ei hun	Rh2 cysylltu ymchwil gyd-destunol yn greadigol i gefnogi datblygu ei ymateb ei hun
LI3 cyflwyno gwybodaeth berthnasol am y gwaith a astudiwyd. [MC, DM, CE, GT]	T3 cyflwyno gwybodaeth drefnus am y gwaith a astudiwyd.	Rh3 cyflwyno mewnwelediad creadigol ac unigol am y gwaith a astudiwyd.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

Uned 2: Cyfathrebu Gweledol 2D

Cod yr uned:	L/502/4823
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall a datblygu sgiliau technegau cyfathrebu gweledol dau ddimensiwn (2D), megis arlunio, peintio, ffotograffiaeth ac argraffu.

Bydd dysgwyr yn dilyn briffiau aseiniad gosod a fydd yn caniatáu iddynt ddefnyddio sgiliau drwy syniadau ymchwil, datblygu a dyluniad terfynol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'n hanfodol bod artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr yn datblygu'r sgiliau cyfathrebu gweledol 2D angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion briff, gan ganiatáu iddynt fynegi syniadau'n effeithiol.

Bydd yr uned hon yn archwilio amrywiaeth eang o dechnegau creu marciau 2D gan gyfeirio at elfennau ffurfiol fel llinellau, tŵn, lliw, siâp, patrwm, gwead, ffurf a chyfrannedd. Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr brofi cynifer o dechnegau 2D â phosib.

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau yn y maes hwn er mwyn ceisio cwblhau syniadau ymchwil, datblygu a dyluniad terfynol. Mae hon yn rhan hanfodol o ddysgu; bydd sgiliau a gwybodaeth a ddysgir ar gyfer yr uned hon yn sail i bob uned arall o fewn y cymhwyster.

Dylai briffiau aseiniad gyda thema benodol roi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Argymhellir y cyflwynir dysgwyr i dechnegau 2D a gynigir drwy'r ganolfan drwy raglen sefydlu wedi'i dilyn gan aseiniadau mwy penodol — er enghraifft, cyfres o faneri'n hyrwyddo orielau yn Amgueddfa Victoria ac Albert. Gall yr aseiniad hwn gynnwys ymchwil 2D ar ffurf brasluniau a ffotograffau o'r amgueddfa, a gellir eu datblygu'n greadigol i greu baneri drwy ddefnyddio technegau 2D fel argraffu.

Cyflwynir dysgwyr i faterion iechyd a diogelwch y mae'n rhaid iddynt fod yn ymwybodol ohonynt sy'n gysylltiedig â'r technegau a'r prosesau ar gyfer yr uned hon.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio technegau gwneud marciau 2D
- 2 Gallu cyfleu syniadau dylunio drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu gweledol 2D
- 3 Gallu defnyddio elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 2D.

Cynnwys yr uned

1 Gallu defnyddio technegau gwneud marciau 2D

Gwneud marciau 2D: disgyblaethau e.e. arlunio, peintio, ffotograffiaeth, argraffu, digidol (arlunio, peintio, trafod)

Technegau: cyffredinol e.e. cyffwrdd, rheoli, arddull, dull, gweithdrefn, rhwyddineb; penodol e.e. arlunio (dotwaith, smwtsio, sgraffito), peintio (cymysgu, golchi, sgwmblo), digidol (clonio, trawsnewid), argraffu (ysgythru, sgrin sidan), ffotograffiaeth (osgoi, ffocws)

Cofnodi: o ffynonellau cynradd; yr amgylchedd naturiol e.e. planhigion, pobl, anifeiliaid, pryfed, cregyn, tirluniau; yr amgylchedd gwneud e.e. pensaernïaeth, arteffactau, celfi stryd, orielau, arddangosfeydd, amgueddfeydd; ffynonellau eilaidd e.e. cylchgronau, siwrnalau, fideo, ffilm, y rhyngwrwyd, deunydd wedi'i argraffu, CD-ROM

Iechyd a diogelwch: Deddf Iechyd a Diogelwch 1974; dileu perygl iddynt eu hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn stiwdio; dilyn arweiniad COSHH ar ddeunyddiau ac arfer gweithdy

2 Gallu cyfleu syniadau dylunio drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu gweledol 2D

Cyfathrebu: e.e. ymateb, themâu dethol, briffiau aseiniad, cynulleidfa, prynwr, cleient, defnyddiwr terfynol

Syniadau dylunio: e.e. brasluniau, lluniau rhagolwg, cynlluniau, patrymau, cyfresi, darlunio yn y meddwl, testunau, gosodiadau, patrymau, diagramau

Syniadau am ddyluniadau terfynol: e.e. peintiadau wedi'u cwblhau, lluniadau, printiadau, lluniau ar sgrin

3 Gallu defnyddio elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 2D

Elfennau ffurfiol: llinellau e.e. amlinellu, croeslinellu; tŷn e.e. cysgod, cyferbyniad; lliw e.e. gwawr, arlliw, gwerth, adiol, tynnol; ffurf e.e. llinol, wedi'i gysgodi; siâp e.e. rheolaidd, afreolaidd; gwead; graddfa; ongl; cyfran

deunyddiau: e.e. arlunio (offer, graffit, siarcol, creon, inc, pastel, papurau, arwynebau), peintio (gouache, inciau, olew, acrylig, dyfrlliw, brwshys, pigmentau, cyfrwng, cyneilyddion), argraffu (leino, sbwng, cerdyn, rhwyll, engrafiad, inciau, gwasg), digidol (sgriniau, taflunydd, llechen, ysgrifbin, sganiwr, synhwrydd, camera, sgriniau cyffwrdd, argraffwyr), ffotograffiaeth (camera, lens, argraffydd, papurau, sgrin, synhwrydd, emwlsiwn ffotosensitif)

Disgyblaethau: e.e. arlunio, peintio, argraffu, ffotograffiaeth; cyfryngau digidol

Cyfathrebu gweledol 2D: gwedd e.e. siâp, lliw, gwead, arwyneb, cyfansoddiad, marciau, unfurfiaeth, cyferbyniad, ymylon; cynnwys e.e. testun, ffocws, gosodiad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 arddangos defnydd o dechnegau gwneud marciau 2D yn ddiogel wrth weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd [YA, MC]	T1 arddangos defnydd cyson ac effeithiol o dechnegau gwneud marciau 2D yn ddiogel wrth weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd	Rh1 arddangos dychmygus ac annibynnol o dechnegau gwneud marciau 2D yn ddiogel wrth weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd
LI2 cyfleu syniadau dylunio drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu gweledol 2D [MC, DM]	T2 cyfleu syniadau'n effeithiol ac yn gyson drwy ddefnyddio technegau gwneud marciau 2D	Rh2 cyfleu syniadau'n ddychmygus ac yn annibynnol drwy ddefnyddio technegau gwneud marciau 2D
LI3 defnyddio elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 2D. [YA, MC, CE]	T3 esbonio'r defnydd o elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 2D.	Rh3 gwerthuso'r defnydd o elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 2D.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 3: Cyfathrebu Gweledol 3D

Cod yr uned:	R/502/4824
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddysgu am dechnegau cyfathrebu gweledol tri dimensiwn (3D), drwy brosesau fel adeiladu, modelu, cerfio a chastio.

Cyflwyniad i'r uned

Mae sgiliau cyfathrebu gweledol 3D yn angenrheidiol i artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr oherwydd eu bod yn caniatáu iddynt gyfleu datblygu syniadau mewn 3D gan gyfeirio at ddefnyddio deunyddiau, technegau ac elfennau ffurfiol, ac i gynhyrchu darnau terfynol — er enghraifft, cynnyrch, celfi a cherfluniau.

Argymhellir y cyflwynir dysgwr i ddeunyddiau 3D — er enghraifft, pren, metel, cerameg, plastr, gwydr, plastigion a cherdyn — a thechnegau a phrosesau drwy sesiynau sefydlu gweithdy unigol. Gellid dilyn y sesiwn sefydlu ag aseiniad i ganiatáu defnyddio sgiliau i ddylunio, llunio a chynhyrchu darnau 3D. Gallai'r rhain gynnwys awtomata, symudion, deunydd pecynnu, fflecsagonau, trafod papur, adeiladweithiau gwifren neu gerdyn, gosodiadau wedi'u gwneud o gardbord sy'n defnyddio brithwaith, a llyfrau codi.

Bydd rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r technegau a'r prosesau yn yr uned hon — er enghraifft, arferion gweithdy diogel. Dylid dilyn y canllaw Rheoli Sylweddol Peryglus i Iechyd (COSHH) priodol bob amser.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio technegau marcio 3D
- 2 Gallu cyfleu syniadau dylunio drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu gweledol 3D
- 3 Gallu defnyddio elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 3D.

Cynnwys yr uned

1 Gallu defnyddio technegau marcio 3D

Technegau creu 3D e.e. torri, uno, siapio, ffurfio, cerfio, gwehyddu, technegau digidol 3D, creu modelau, arbrofion, darnau wedi gorffen, laminiadu, ymdoddi, castio, slotio, tyllu, llyfnu, sgleinio, gorffen

Cofnodi: o ffynonellau cynradd; yr amgylchedd naturiol e.e. planhigion, pobl, anifeiliaid, pryfed, cregyn, tirweddau; yr amgylchedd gwneud e.e. pensaerniaeth, arteffactau, celfi stryd, orielau, arddangosfeydd, amgueddfeydd; ffynonellau eilaidd e.e. cylchgronau, siwrnalau, fideo, ffilm, y rhyngwrwyd, deunydd wedi'i argraffu, CD-ROM

Iechyd a diogelwch: Deddf Iechyd a Diogelwch 1974; dileu perygl iddynt eu hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn gweithdy; dilyn arweiniad COSHH ar ddeunydd ac arfer gweithdy

2 Gallu cyfleu syniadau dylunio drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu gweledol 3D

Cyfathrebu syniadau: ymateb i themâu; aseinio briffiau; samplu deunyddiau e.e. creu modelau, maquettes, trin arteffactau; archwilio e.e. prosesau creu, priodweddau deunyddiau, profion; cyflwyno e.e. lluniadau gweithio, taflenni dylunio, ar y sgrin, modelau graddfa, llyfrau braslunio, adborth

Datblygiad: ffurfiau e.e. silindr, ciwb, rhombws

Syniadau dylunio: e.e. modelau cerdyn, maquettes, darnau prawf, arbrofion, deunyddiau

Syniadau am ddyluniadau terfynol: e.e. cerfluniau wedi'u cwblhau, modelau, arteffactau, ffeiliau digidol

3 Gallu defnyddio elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 3D

Elfennau ffurfiol: llinell; tôn; lliw; ffurf; siâp; gwead; cyfran; cyfaint

Defnyddio elfennau ffurfiol: e.e. llinell (cerflun gwifren), tôn (ffabrigau llifedig, tanio ceramig), lliw (gwydredd, gwydr lliw), ffurf (potiau pinsiad), siâp (cerfluniau cerdyn, plastigion), gwead (cerfluniau carreg), cyfrannedd (modelau graddfa, ffigur dynol), cyfaint (pethau pwmpiadwy, cynwysyddion)

Deunyddiau: deunyddiau 3D anwrthiannol e.e. plastr gwlyb, cerdyn, papur, llinyn, gwifren, ffibrau, mod roc llinyn, mwydion papur, clai, sbwng, tecstilau. Deunyddiau 3D sy'n wrthiannol e.e. pren caled, pren meddal, pren haenog, MDF, metelau, plastig, gwydr, plastr sych, cyfansoddion, deunyddiau llen

Technegau: e.e. prosesau adeiladu, torri, cerfio, ffurfio, mowldio, gwehyddu, uno, cydosod, CAD/CAM, prosesau gorffen

Cyfathrebu gweledol 3D: presenoldeb e.e. cyfaint, gofodol, amsugno sain, ansawdd cyffyrddol, pwysau, ergonomeg, meddalwch, adeiledd, graddfa, cyflwyniad. Cynnwys e.e. testun, rhannau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 arddangos defnydd o dechnegau gwneud 3D yn ddiogel wrth weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd [YA, MC]	T1 arddangos defnydd cyson ac effeithiol o dechnegau gwneud 3D yn ddiogel wrth weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd	Rh1 arddangos dychmygus ac annibynnol o dechnegau gwneud 3D yn ddiogel wrth weithio o ffynonellau cynradd ac eilaidd
LI2 cyfleu syniadau dylunio drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu gweledol 3D [MC, DM]	T2 cyfleu syniadau'n effeithiol ac yn gyson drwy ddefnyddio sgiliau gwneud 3D	Rh2 cyfleu syniadau'n ddychmygus ac yn annibynnol drwy ddefnyddio technegau gwneud 3D
LI3 defnyddio elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 3D. [YA, DM]	T3 esbonio'r defnydd o elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 3D.	Rh3 gwerthuso'r defnydd o elfennau ffurfiol mewn cyfathrebu gweledol 3D.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 4: Defnyddio Syniadau i Ymchwilio, Datblygu a Chynhyrchu Celf a Dylunio

Cod yr uned:	Y/502/4825
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio syniadau i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth mewn cynnig prosiect celf a dylunio y maent wedi'i lunio eu hunain. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn drwy gynnal ymchwil, datblygu a chynhyrchu syniadau dyluniad terfynol mewn perthynas â llwybrau celf a dylunio fel graffeg, tecstilau neu 3D.

Cyflwyniad i'r uned

I gwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, mae gofyn bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth o'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng aseiniadau. Mae briffiau celf a chreffft yn benagored ar y cyfan, gyda phwyslais ar ddeunyddiau a thechnegau a'r ffordd y defnyddir hwy. Mae briffiau dylunio'n bodloni anghenion y cwsmer, yn weddol fanwl. Ym mhob achos, bydd rhaid iddynt ddatblygu prosiect gyda ffocws pendant o fewn amserlen benodol.

Mae prosesau archwilio, datblygu a chynhyrchu syniadau celf, crefft a dylunio yn bwysig i artistiaid, dylunwyr a chreffftwyr wrth weithio ar friffiau penodol. Mae'r uned hon yn crynhoi'r holl sgiliau a thechnegau y bydd dysgwyr yn eu datblygu ar y rhaglen.

Mae'r aseiniad yn cynnwys pedwar maes y mae'n rhaid eu profi a gweithio arnynt ar gyfer yr uned hon:

- Dadansoddi briff y prosiect: bydd rhaid i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r briff aseiniad. Mae'n bwysig casglu digon o ymchwil drwy'r ddealltwriaeth hon i gefnogi datblygu syniadau.

- Ymchwilio gwybodaeth briodol: mae dealltwriaeth o sut i ymchwilio gwybodaeth i gefnogi datblygu syniadau yn hanfodol yma. Bydd gafael ar ffynonellau cynradd ac eilaidd yn sylfaen i ymchwil. Bydd ymchwil cyd-destunol hanesyddol a chyfoes yn darparu gwybodaeth hanfodol i gyfeirio ac i ysbrydoli datblygu syniadau. Bydd rhaid i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o friff yr aseiniad. Mae'n bwysig casglu digon o ymchwil drwy'r ddealltwriaeth hon i gefnogi datblygu syniadau.
- Creu a datblygu syniadau: bydd deunyddiau, technegau a phrosesau'n amrywio yn ôl y maes astudio arbenigol, er enghraifft graffeg, 3D, ffasiwn etc. Bydd gofyn i ddysgwyr greu modelau prototeip, modelau, brasfodelau, samplau a darnau prawf 2D a/neu 3D samplau i gefnogi datblygu syniadau ac i sicrhau y bydd syniadau'n gweithio yn ymarferol.
- Syniad dyluniad terfynol: Drwy ymchwil a datblygu, mae gofyn i ddysgwr greu a chyfleu prif nodweddion eu cynnig prosiect yn effeithiol, gan gyfeirio at eu harbenigedd. Bydd gofyn i ddysgwyr greu gwerthusiad o'u canlyniad a'u datblygiad terfynol i ymateb i'r briff, gan ddefnyddio'r termau technegol cywir. Rhaid cofnodi cynnydd dysgwyr ac adolygiad parhaus o'u gwaith drwy ddefnyddio'r dulliau mwyaf priodol, e.e. dyddiadur gweledol, anodiadau mewn llyfrau braslunio neu daflenni dylunio.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu ymchwilio a chofnodi gwybodaeth weledol ac arall o ffynonellau cynradd ac eilaidd i ymateb i'r briff.
- 2 Gallu datblygu syniadau sy'n bodloni gofynion y briff, drwy ddefnyddio deunyddiau, cyfarpar a thechnegau arbenigol.
- 3 Gallu cyflwyno a chyfleu gwaith datblygu a chanlyniadau terfynol.
- 4 Gwybod cryfderau a gwendidau gwaith datblygiadol.

Cynnwys yr uned

1 Gallu ymchwilio a chofnodi gwybodaeth weledol ac arall o ffynonellau cynradd ac eilaidd i ymateb i'r briff.

Ffynonellau cynradd (yn amrywio gan ddibynnu ar y briff): cofnodi e.e. arlunio, peintio, ffotograffiaeth, fideo, gwrthrychau, lleoedd, pobl, orielau, arddangosfeydd, amgueddfeydd

Ffynonellau eilaidd (yn amrywio gan ddibynnu ar y briff): cofnodi e.e. arlunio, peintio, ffotograffiaeth, fideo, technoleg ddigidol, cyhoeddiadau papur ac ar-lein, cynnyrch masnachol, ffynonellau clyweled

Recordio: e.e. ffotograffau, byrddau hwyliau, brasluniau, nodiadau

Ymateb: egluro'r briff, nodi gofynion e.e. gwybodaeth, cyfyngiadau, anghenion cwsmeriaid, defnyddwyr, cynulleidfa, posibiliadau technegol, meini prawf llwyddiant

Briff: e.e. mewn canolfan, dehongli, maes arbenigol

2 Gallu datblygu syniadau sy'n bodloni gofynion y briff, drwy ddefnyddio deunyddiau, cyfarpar a thechnegau arbenigol.

Gofynion y briff: e.e. dadansoddi, egluro, ysbrydoliaeth, syniadau

Datblygu syniadau: e.e. 'meddwl ar bapur', modelu gyda deunyddiau, defnyddio ymchwil, creu syniadau cychwynnol, adolygu, datblygu, gwerthuso, mireinio, syniadau priodol, prototeipiau, dyluniad terfynol

Deunyddiau, cyfarpar a thechnegau arbenigol: (yn amrywio yn dibynnu ar arbenigedd) e.e. cynlluniau, lluniadau gweithio, 2D, 3D, datblygu, brasluniau, fideo

3 Gallu cyflwyno a chyfleu gwaith datblygu a chanlyniadau terfynol.

Cyflwyno gwaith: ymchwil cychwynnol, dilyniant, syniadau dylunio; dyluniad terfynol; dewis technegau arbenigol; fformat cyflwyno e.e. dangos mewn arddangosfa, portffolio

4 Gwybod cryfderau a gwendidau gwaith datblygiadol

Cryfderau a gwendidau: ffynonellau e.e. rhesymau, ysbrydoliaeth; llwyddiannau e.e. syniadau a wrthodwyd, problemau, atebion; syniadau cychwynnol e.e. cyfarwydd, anghyfarwydd, dilyn gwahanol gyfeiriadau, risgiau creadigol, gwybodaeth o brosesau; canlyniad terfynol

Gwaith datblygiadol: cyfathrebu e.e. gydag unigolion, gyda grŵp, wyneb yn wyneb, o bell; dulliau cyfathrebu e.e. arddangosfeydd, cyflwyno digidol, siwrial, blog, dilyniant, cynllun; ymagweddau e.e. graddfeydd amser, atebion amgen, syniadau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 ymchwilio a chofnodi gwybodaeth weledol ac arall o ffynonellau cynradd ac eilaidd i ymateb i'r briff. [YA]	T1 ymchwilio a chofnodi amrywiaeth o wybodaeth weledol ac arall o ffynonellau cynradd ac eilaidd i ymateb i'r briff.	Rh1 ymchwilio a chofnodi gwybodaeth weledol ac arall amrywiol o ffynonellau cynradd ac eilaidd i ymateb i'r briff.
LI2 datblygu syniadau sy'n bodloni gofynion y briff, drwy ddefnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau. [MC, DM]	T2 datblygu syniadau amgen sy'n bodloni gofynion y briff, drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, technegau a phrosesau.	Rh2 datblygu syniadau amgen dethol, gan fodloni gofynion y briff yn ddychmygus, drwy ddefnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau arbenigol.
LI3 cyflwyno a chyfleu gwaith datblygol a chanlyniadau terfynol i fodloni'r briff [DM]	T3 cyflwyno a chyfleu gwaith datblygol cydlynol a chanlyniadau terfynol yn effeithiol.	Rh3 cyflwyno a chyfleu gwaith datblygol amrywiol a chanlyniadau terfynol yn ddychmygus.
LI4 nodi cryfderau a gwendidau'r gwaith o ran bodloni gofynion y briff gan ddefnyddio termau technegol priodol. [DM]	T4 esbonio cryfderau a gwendidau'r gwaith o ran bodloni gofynion y briff, defnyddio termau technegol yn gyson ac yn gywir.	Rh4 dadansoddi cryfderau a gwendidau'r gwaith o ran bodloni gofynion y briff.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 5: Adeiladu Portffolio Celf a Dylunio

Cod yr uned:	H/502/4875
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Diben yr uned yw datblygu portffolio celf a dylunio i fod yn gyfrwng i gefnogi cais am gyflogaeth neu astudiaeth bellach.

Cyflwyniad i'r uned

Er mwyn llwyddo yn y diwydiant celf a dylunio, rhaid bod ymarferwyr yn gallu cyflwyno eu hunain a'u gwaith yn y ffordd fwyaf priodol. Mewn nifer o achosion, bydd y cyflwyniad hwn ar ffurf portffolio o waith celf a dylunio wedi'i ddethol a'i olygu'n ofalus. Gall y fformat gynnwys enghreifftiau papur o waith celf a dylunio, gwaith cyfrifiadurol wedi'i argraffu, portffolio ffilm neu gyflwyniadau DVD o ffilm, gosodiad neu animeiddiad, neu ddilyniannau modelu 3D wedi'u hanimeiddio. Gall y portffolio fod yn offeryn i ddangos cryfderau unigolyn, neu i amlygu ei allu i weithio mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, neu ddefnyddio gwahanol gyfryngau'n llwyddiannus. Gellir cyflwyno portffolios ar wefannau fel ffordd o ddenu cynulleidfa ehangach.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i greu portffolio. Wrth wneud hyn, byddant yn dysgu sut i werthuso eu gwaith yn gyffredinol, ac ystyried cryfderau a meysydd i'w datblygu yn eu gwaith. Byddant yn dysgu sut i ddewis enghreifftiau i'w cynnwys yn eu portffolio, ac yn datblygu dealltwriaeth o osod meini prawf i'w helpu i lunio'r penderfyniadau hyn. Caiff y gallu i gyflwyno eu henghreifftiau i'w potensial llawn ei archwilio hefyd, gyda dysgwyr yn ystyried pa mor addas i'r diben yw gwahanol dechnegau cyflwyno.

Am fod cyfathrebu'n agwedd mor bwysig ar weithio yn y diwydiant celf a dylunio, bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i esbonio eu harferion gwaith a'u hamcanion yn eu gwaith. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu yn debygol o fod yn rhan hanfodol o'u gyrfa. Bydd yr uned hon yn rhoi cyflwyniad defnyddiol iddynt i ddeall a defnyddio'r sgiliau hyn. Gellir defnyddio'r wybodaeth y bydd dysgwyr yn ei dysgu yn eu ceisiadau am gyflogaeth neu astudiaeth bellach.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Deall diben portffolio celf a dylunio.
- 2 Gallu cyflwyno portffolio celf a dylunio.

Cynnwys yr uned

1 Deall diben portffolio celf a dylunio

Diben: e.e. cefnogi cais am gyflogaeth, cefnogi cais am astudiaeth bellach, amlygu cryfderau yn eu gwaith eu hunain, arddangos gallu mewn amrywiaeth eang o feysydd a disgyblaethau, dangos sgiliau technegau penodol, amlygu sgiliau arbenigol perthnasol i gyfleoedd gyrfaedd, creu dilyniant gwaith neu brosiectau wedi'u cwblhau, darparu tystiolaeth o waith wedi'i gyhoeddi neu ei arddangos, dangos enghreifftiau o waith dylunio mewn briffiau dylunio penodol

Portffolio celf a dylunio: e.e. gwaith celf papur, gwaith dylunio papur, samplau deunyddiau, cofnodion neu enghreifftiau ffotograffig, DVD, portffolios fideo neu ar y we, dilyniannau wedi'u hanimeiddio, cefnogi datganiadau a CV

2 Gallu cyflwyno portffolio celf a dylunio

Gwerthuso: e.e. nodi nodau, gwerthuso eu gwaith celf ymarferol eu hunain, ystyried cryfderau a meysydd i'w datblygu

Dethol: e.e. penderfynu ar feini prawf i'w cynnwys yn y portffolio, defnyddio adborth gan eraill i helpu yn y broses ddethol, enghreifftiau o olygu

Cyflwyno: e.e. glanhau, mowntio a pharatoi gwaith celf a dylunio, defnyddio fframiau, datblygu DVD neu portffolios fideo, portffolios ar-lein neu ar y we, aildynnu enghreifftiau ffotograffig yn ôl yr angen, datblygu cyflwyniadau ar y sgrin, cynhyrchu datganiad ysgrifenedig i gefnogi gwaith ymarferol, ysgrifennu CV

Esbonio: e.e. cyfleu rhesymau dros ddewis a gwrthod gwaith, nodi rhesymeg y dewis o ddulliau cyflwyno, defnyddio datganiadau ysgrifenedig i roi gwybodaeth am gynnwys a diddordebau, defnyddio gwybodaeth i gefnogi enghreifftiau o waith, esbonio dulliau cynhyrchu mewn gwaith

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio sut mae artistiaid a dylunwyr yn defnyddio portffolios [YA]	T1 esbonio sut mae artistiaid a dylunwyr yn defnyddio portffolios, gan gyrraedd casgliadau cyson	Rh1 yn annibynnol, disgrifio sut mae artistiaid a dylunwyr yn defnyddio portffolios, gan ddod i gasgliadau deallus a manwl
LI2 cyflwyno portffolio celf a dylunio [YA, MC, DM, HR]	T2 dethol a chyflwyno enghreifftiau o'r gwaith yn ddeallus i gynhyrchu portffolio celf a dylunio effeithiol	Rh2 dethol a chyflwyno enghreifftiau o'r gwaith yn annibynnol i gynhyrchu portffolio celf a dylunio cyffrous
LI3 cyfiawnhau rhesymau dros ddewis gwaith ar gyfer portffolio celf a dylunio. [MC, DM, HR]	T3 esbonio'r rhesymau dros ddewis gwaith ar gyfer portffolio celf a dylunio yn gyson ac yn effeithiol.	Rh3 esbonio'r rhesymau dros ddewis gwaith ar gyfer portffolio celf a dylunio yn annibynnol ac yn rhugl.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 6: Gweithio yn y Diwydiant Celf a Dylunio

Cod yr uned:	K/502/4876
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth eang o'r diwydiant celf a dylunio i ddysgwyr, ac o'r cyfleoedd cyflogaeth ynddo.

Cyflwyniad i'r uned

Er mwyn gallu symud ymlaen i'w gyrfa ddethol, bydd rhaid bod gan ddysgwyr wybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth ym maes celf a dylunio. Bydd hyn yn cynnwys dealltwriaeth drosgynnol o'r meysydd arbenigol gwahanol a sut maent yn gysylltiedig â'i gilydd, yn ogystal â gwybodaeth benodol am gwahanol swyddi yn y llwybrau a ddewiswyd gan ddysgwyr. Nod yr uned hon yw rhoi ymwybyddiaeth o rolau a phosibiliadau cyflogaeth yn niwydiant celf a dylunio i ddysgwyr. Bydd yn cynnwys gwerthusiad o wahanol fathau o sefydliadau a'r rolau y mae unigolion yn eu cyflawni ynddynt. Ystyrir gwahanol agweddau ar y diwydiant celf a dylunio, megis gweinyddu, ymchwil a chynhyrchu ymarferol.

Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth o sefydliadau celf a dylunio. Byddant yn ystyried sut bydd y sefydliadau hyn yn gweithredu o ran eu diben a sut maent yn ymwneud â marchnadoedd penodol. Bydd tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i ymchwilio i gyfleoedd cyflogaeth. Gall dysgwyr adeiladu ar yr enghreifftiau yn yr adran gynnwys drwy archwilio sefydliadau lleol a gwerthuso'r canlyniadau i ddangos eu dealltwriaeth. Efallai y bydd dysgwyr yn gallu cysylltu eu hymchwiliadau â'u llwybrau dethol penodol.

Bydd dysgwyr yn ystyried rolau pobl sy'n gweithio yn y sefydliadau hyn. Byddant yn datblygu ymchwil ar sail nodweddion y swyddi gwahanol y maent yn ymchwilio iddynt, ac yn esbonio sut mae'r swyddi hyn yn gysylltiedig â'i gilydd. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y mae sefydliadau'n defnyddio unigolion, p'un a ydynt ar eu liwt eu hunain neu wedi'u cyflogi'n uniongyrchol, a sut y mae'r sefydliadau ac unigolion yn cyflawni nodau. Gallai'r ddealltwriaeth hon fod yn ddefnyddiol i ddysgwyr wrth nodi maes arbenigol dethol, neu wrth gadarnhau'r dewis hwn. Gall dysgwyr ystyried y mathau o sgiliau sy'n angenrheidiol yn y diwydiant celf a dylunio, a defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu set o'u sgiliau eu hunain yn unol â hynny.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gwybod am sefydliadau yn y diwydiant celf a dylunio
- 2 Gwybod am swyddi yn y diwydiant celf a dylunio.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am sefydliadau yn y diwydiant celf a dylunio

Sefydliadau: e.e. grwpiau dylunio, cwmnïau ffasiwn, cwmnïau animeiddio, canolfannau celf, asiantaethau darlunio a chelf gain, cwmnïau amlgyfrwng, amgueddfeydd, papurau newydd a chylchgronau, cwmnïau cyhoeddi, cwmnïau cyfeirio celf, cwmnïau dylunio, cyhoeddwr meddalwedd, cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus a marchnata, stiwdios ffilm a theledu, asiantaethau hysbysebu ac adrannau hysbysebu mewnol, adrannau cyfrifiadurol a delweddu digidol, theatrau, cwmnïau pensaernïaeth, cwmnïau dylunio ac addurno mewnol, addysg estyn allan, celfyddydau cymunedol

Gweinyddu celf: e.e. cyrff a ariennir yn genedlaethol, byrddau celf rhanbarthol, awdurdodau lleol, noddwyr busnes

2 Gwybod am swyddi yn y diwydiant celf a dylunio

Swyddi: e.e. artist hunan-gyflogedig, cyfarwyddwr dylunio, dylunydd iau, dylunydd ar ei liwt ei hun, dylunydd mewnol, ymgynghorydd, artist cysyniadol, gweithiwr celf, dylunydd amlgyfrwng, dylunydd gwefan, darlunydd, dylunydd graffeg, artist tecstilau neu ddylunydd, dylunydd cynnyrch, ceramegydd, crefftwr, dylunydd ffasiwn, dylunydd meddalwedd, animeiddydd, dylunydd gemau, artist cyfrifiadurol a rhyngweithiol/amlgyfrwng, artist effeithiau arbennig, gwneuthurwr modelau, ffotograffydd, cyfarwyddwr celf, dylunydd 3D, ysgrifennwr copi, teipograffydd, artist amgylcheddol

Gweinyddu celf: e.e. cynhyrchydd, curadur, swyddog ariannu, swyddog marchnata, gweithiwr cyswllt

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi sut mae sefydliadau'n gweithredu yn y diwydiant celf a dylunio [YA]	T1 esbonio sut mae sefydliadau'n gweithredu yn y diwydiant celf a dylunio	Rh1 dadansoddi sut mae sefydliadau amrywiol yn gweithredu yn y diwydiant celf a dylunio yn annibynnol ac yn rhugl, gan ddod i gasgliadau deallus.
LI2 rhestru swyddi yn y diwydiant celf a dylunio. [YA]	T2 esbonio nodweddion swyddi yn y diwydiant celf a dylunio.	Rh2 esbonio nodweddion swyddi amrywiol yn y diwydiant celf a dylunio yn annibynnol ac yn rhugl, gan ddod i gasgliadau deallus.
LI3 disgrifio nodweddion swyddi yn y diwydiant celf a dylunio. [YA]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 7: Gweithio gyda Briffiau Dylunio Graffeg

Cod yr uned:	D/502/4826
FfCCH Lefel 2	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno disgyblion i'r technegau y mae dylunwyr graffeg yn eu defnyddio i greu gwaith cyffrous a blaengar ac i gyfleu negeseuon neu wybodaeth i ateb briff.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunio graffeg yn broses greadigol sy'n cyfuno celf a thechnoleg i gyfleu syniadau. Mae dylunydd graffeg yn gweithio gydag offer cyfathrebu amrywiol, fel lluniau a thestun, er mwyn cyfleu neges gan gwsmer i gynulleidfa benodol. Diben dylunio graffeg yw hyrwyddo neu werthu rhywbeth neu gyfleu neges arbennig i'r gwyliwr. Mae dylunwyr graffeg yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gyflawni hyn.

Mae enghreifftiau o ddylunio graffeg o'n cwmpas ymhobman; mewn papurau newydd a chylchgronau, ar bosteri a thafleini, ar ddeunydd pecynnu ac ar fyrddau hysbysebu. Mae dylunwyr graffeg yn gweithio ar eu pennau eu hunain neu fel rhan o dîm creadigol mwy. Mae nifer o fusnesau mawr yn cyflogi dylunwyr graffeg i weithio fel rhan o'u hadrannau marchnata.

Mae dylunwyr graffeg yn archwilio syniadau, deunyddiau a thechnegau i ymateb i friffiau gosod neu eu hunain. Er mwyn datblygu eu sgiliau, maent yn gweithio gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau a thechnegau gwahanol, ac yn arbrofi'n eang gyda phrosesau digidol a stiwdio traddodiadol i archwilio potensial cyfrwng a ddewiswyd. Cynhelir gwaith ymchwil drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau cynradd ac eilaidd, a defnyddir hwn i gyfeirio datblygu syniadau. Mae dylunwyr graffeg yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus. Maent yn dadansoddi eu harbrofion a'u datblygiad er mwyn asesu eu priodoldeb i'r dasg. Maent yn gwerthuso'r cynnyrch terfynol i sicrhau ei fod yn bodloni eu bwriad creadigol a'i fod yn bodloni gofynion y briff.

Mae ymateb llwyddiannus i briff dylunio graffeg yn gofyn am wybodaeth weithio o sut mae dylunwyr graffeg proffesiynol yn gweithio a'r marchnadoedd y maent yn eu targedu. Mae marchnadoedd targed a'u hanghenion penodol yn amrywio'n sylweddol. Rhaid hyfforddi dysgwyr i ddadansoddi briffiau a nodi anghenion eu marchnad darged, y bydd rhaid eu hystyried wrth ddatblygu ymateb.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio deunyddiau, cyfarpar a thechnegau graffeg priodol
- 2 Gallu bodloni cyfyngiadau briff dylunio graffeg penodol
- 3 Gallu datblygu syniadau a chynhyrchu cynnyrch terfynol fel ymateb briff dylunio graffeg wedi'i ddiffinio o flaen llaw
- 4 Deall nodweddion ac ansawdd lwyddiannus gwaith dylunio graffeg.

Cynnwys yr uned

1 Gallu defnyddio deunyddiau, cyfarpar a thechnegau graffeg priodol

Defnyddiau a thechnegau stiwdio: e.e. taflenni dylunio, deunydd bras, brasluniau rhagolwg, arddull llythrennau wedi'i gyfuno â lluniau, collage, gludo, ysgrifbinnau marcio; technegau reprograffig e.e. llungopiwr, copïo, ehangu, lleihau, trin; deunydd 'gweledol' wedi'i gwblhau

Iechyd a diogelwch: arfer gweithdy, amgylchedd stiwdio, Deddf Iechyd a Diogelwch 1974; arweiniad COSHH ar ddeunyddiau

Technegau a phrosesau digidol: e.e. mewnbynnu, sganio, ffotograffiaeth, ffilmio, arlunio, montage, dylunio i'r we, trin a golygu lluniau, deunydd wedi'i argraffu, ar y sgrin, fformatau sgrin; syniadau cyfryngau rhyngweithiol, deilliannau ar-lein

2 Gallu bodloni cyfyngiadau briff dylunio graffeg penodol

Briff y Prosiect: dadansoddi, gofynion, gwybodaeth ychwanegol; datblygu gwaith e.e. arddull, cynnwys, strategaeth, cyllideb, ystyriaethau cyfreithiol

Ymchwilio a chofnodi: ffynonellau cynradd e.e. cofnodi, arsylwi, arlunio/peintiadau, ffotograffiaeth, fideo; ffynonellau e.e. gwrthrychau, lleoedd, pobl, orielau, arddangosfeydd, amgueddfeydd; ffynonellau eilaidd e.e. atgynhyrchiadau, llungopiau, cardiau post, cyhoeddiadau papur ac ar-lein, llyfrgelloedd a ffynonellau clyweled; ymchwil i'r farchnad e.e. holiaduron wedi'u casglu, cyfweliadau, profi cynhyrchion

Cynulleidfa darged: prif grŵp e.e. plant, pobl ifanc yn eu harddegau, menywod, gwrywod, pobl sengl, gweithwyr proffesiynol ifanc, henoed

Defnyddio briffiau: e.e. pecynnu, cyfeirio, hysbysebu, hyrwyddo, teipograffeg, cynllun, teitlau, logos, hunaniaeth gorfforaethol, hunaniaeth sianel

3 Gallu datblygu syniadau a chynhyrchu cynnyrch terfynol fel ymateb briff dylunio graffeg penodol

Cynhyrchu syniadau: dulliau e.e. tasgu syniadau, trafodaeth grŵp, arbrofi, deunyddiau graffeg, technegau, prosesau

Gwaith datblygiadol: paratoi, cynllunio, cynnyrch terfynol e.e. byrddau hwyliau, deunydd gweledol, brasluniau, cynlluniau, brasfodelau, drafftiau cynnar, lliw, ffontiau, byrddau dylunio, llyfrau braslunio, maquettes

Cynnyrch terfynol: canlyniadau wedi'u cwblhau e.e. poster, taflen, pecynnu, hysbysebu, dylunio ar gyfer argraffu, dyluniad crys t, arwyddion, deunydd ysgrifennu, uned arddangos man gwerthu, hunaniaeth gorfforaethol, logos, cardiau busnes, cylchgrawn, taflen, dewislen

4 Deall nodweddion ac ansawdd llwyddiannus gwaith dylunio graffeg

Nodweddion: dadansoddiad e.e. opsiynau amgen; archwilio priodweddau e.e. effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; priodoldeb e.e. diben llun, ffactorau, cyfleoedd, cyfyngiadau (amser, mynediad, celfi, offer arbenigol, adnoddau eraill, cyllideb, cynnwys), cyflwyniad. prosiectau pobl eraill, e.e. briffiau tebyg, masnachol, proffesiynol, llwyddiant (prosiectau, ymgyrchoedd, dylanwad)

Ansawdd: e.e. cymharu, bwriad gwreiddiol, rhinweddau esthetig, cryfderau, gwendidau, meysydd i'w gwella; ei waith ei hun; gwaith pobl eraill

Gwaith dylunio graffeg: ei waith ei hun; gwaith pobl eraill e.e. cyfoedion, gweithwyr proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 defnyddio deunyddiau, cyfarpar a thechnegau yn ddiogel	T1 archwilio deunyddiau a thechnegau'n effeithiol	Rh1 integreiddio deunyddiau a thechnegau'n greadigol ac yn annibynnol
LI2 defnyddio prosesau dylunio graffeg	T2 archwilio prosesau dylunio graffeg yn effeithiol	Rh2 integreiddio technegau a phrosesau dylunio graffeg yn greadigol ac yn annibynnol
LI3 ymchwilio a chofnodi ffynonellau eilaidd fel ymateb briff diffiniedig [YA, GT]	T3 cynnal gwaith ymchwil deallus a chofnodi gwybodaeth weledol ac arall sy'n briodol o ffynonellau cynradd ac eilaidd fel ymateb briff diffiniedig	Rh3 cynnal gwaith ymchwil annibynnol a chofnodi gwybodaeth weledol ac arallsy'n briodol o ffynonellau cynradd ac eilaidd
LI4 cynhyrchu gwaith datblygiadol a chynnyrch terfynol fel ymateb briff [MC, HR]	T4 cynhyrchu gwaith effeithiol a datblygiadol a chynnyrch terfynol i fodloni briff	Rh4 cynhyrchu gwaith dychmygus a datblygiadol a chynnyrch terfynol i fodloni briff
LI5 trafod gwaith dylunio graffeg llwyddiannus. [DM]	T5 cymharu a chyferbynnu gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.	Rh5 gwerthuso gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 8: Gweithio gyda Briffiau Ffotograffiaeth

Cod yr uned:	H/502/4858
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth dysgwyr a'u gallu i ddefnyddio technegau a phrosesau, o dan arweiniad cyfyngiadau a chyfleoedd briff penodol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae ffotograffwyr yn archwilio syniadau, deunyddiau a thechnegau i ymateb i friffiau gosod neu rai a ddiffiniwyd ganddynt eu hunain. Er mwyn datblygu eu sgiliau proffesiynol eu hunain, maent yn gweithio gyda gwahanol ddeunyddiau ac yn arbrofi'n eang — yn fwyfwy gyda chyfryngau digidol — i archwilio posibilrwydd cyfrwng dethol a'i briodoldeb i'r dasg. Maent yn ymchwilio'n eang o ffynonellau gwahanol i gael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau. Mae gweithwyr proffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus i sicrhau ei fod yn cyfateb i'w bwriad creadigol a gofynion y briff.

Mae ffotograffiaeth yn golygu tynnu lluniau mewn stiwdio neu leoliad, a chynhyrchu printiau drwy ddefnyddio technoleg ffilm a/neu ddigidol. I bob pwrpas, dysgu sut i gipio nodweddion gweledol cyffrous drwy ffenestr ydyw. Rhaid i ffotograffwyr proffesiynol allu dadansoddi briffiau'n gywir a nodi pa ffactorau mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu eu hymateb. Bydd dysgwyr yn astudio gwaith ffotograffwyr cyfoes a hanesyddol i archwilio, arbrofi a deall sut i ddefnyddio deunyddiau a thechnegau ffotograffiaeth arbenigol sy'n berthnasol i'w briff.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth drwy archwilio technegau ffilm neu ddigidol i ymateb i'w briff. Bydd faint y gellir hyfforddi dysgwyr i ddefnyddio'r holl dechnegau traddodiadol yn dibynnu ar all all y ganolfan ddefnyddioo ystafelloedd tywyll. Fodd bynnag, disgwylir i dechnegau sylfaenol a sut i ddefnyddio offer gael eu dysgu yn sail i ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau mewn technoleg a phrosesau newydd. Bydd rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch y cyfryngau a'r technegau traddodiadol (ffilm) a'r cyfryngau digidol y maent yn eu defnyddio.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio prosesau ffotograffig
- 2 Gallu datblygu syniadau i fodloni briffiau ffotograffiaeth
- 3 Deall nodweddion ac ansawdd lwyddiannus gwaith ffotograffiaeth.

Cynnwys yr uned

1 Gallu defnyddio prosesau ffotograffig

Technegau a chyfarpar: paratoi cyfarpar e.e. gofalu am gyfarpar, llwytho a dadlwytho camera, gosodiadau camera, trin negatiffau, gwefr batri, cof ar gael; tynnu lluniau e.e. portreadau, tirlun, trefluniau, bywyd llonydd, ffotogramau; rheoli'r ddelwedd e.e. defnyddio'r caead a datguddiad, gosodiadau ISO, ffocws, dyfnder y maes; amcangyfrif pellterau; fframio goddrych; cyfansoddi llun; defnyddio golau naturiol a ffug; dethol lluniau e.e. sganio, golygu, tocio; cynhyrchu lluniau i'r briff e.e. taflenni cyswllt, printiau 'prawf', chwistrell, sychdarthiad llifynnau, ar sgrin

Iechyd a diogelwch: Deddf Iechyd a Diogelwch 1974; dileu perygl iddynt eu hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn stiwdio; dilyn canllaw COSHH ar ddeunyddiau ac arfer gweithdy

2 Gallu datblygu syniadau i fodloni briffiau ffotograffiaeth

Briffiau ffotograffiaeth: hysbysebu; digwyddiadau ffasiwn; digwyddiadau cymdeithasol e.e. priodasau, angladdau, genedigaethau; themâu golygyddol e.e. digartrefedd, tirweddau wedi'u rhewi, yr annisgwyl; cofnodi e.e. adrodd, gwyddonol, technegol, fforensig, gwleidyddol, hanesyddol, celf gain, cymdeithasol; gwybodaeth e.e. digwyddiadau lleol, newyddion

Bodloni'r briff: cwestiynau e.e. diben llun, ffactorau (argaeledd golau, amser, mynediad, celfi, offer arbenigol, adnoddau eraill, cyllideb, cynnwys); prosiectau tebyg e.e. masnachol, proffesiynol

Dewis deunyddiau a phrosesau addas: nodweddion e.e. technegol, esthetig, addasrwydd i'r diben; opsiynau amgen e.e. priodweddau, nodweddion, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; priodoldeb e.e. deunyddiau, technegau; cyfyngiadau e.e. cyfreithiol, moesegol, adnoddau, amser

3 Deall nodweddion ac ansawdd llwyddiannus gwaith ffotograffiaeth

Nodweddion: dadansoddiad e.e. opsiynau amgen; archwilio e.e. priodweddau, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; priodoldeb e.e. diben llun, ffactorau, cyfleoedd, cyfyngiadau (amser, mynediad, celfi, offer arbenigol, adnoddau eraill, cyllideb, cynnwys), cyflwyniad. prosiectau pobl eraill, e.e. briffiau tebyg, masnachol, proffesiynol, llwyddiant (prosiectau, ymgyrchoedd, dylanwad)

Ansawdd: e.e. cymharu, bwriad gwreiddiol, rhinweddau esthetig, cryfderau, gwendidau, meysydd i'w gwella; ei waith ei hun; gwaith pobl eraill

Gwaith ffotograffiaeth: ei waith ei hun; gwaith pobl eraill e.e. cyfoedion, gweithwyr proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 defnyddio technegau ffotograffiaeth [MC, GT, HR]	T1 archwilio deunyddiau a phrosesau ffotograffiaeth yn effeithiol	Rh1 integreiddio deunyddiau a phrosesau ffotograffiaeth yn ddychmygus
LI2 defnyddio cyfarpar ffotograffiaeth yn ddiogel [HR]	T2 datblygu syniadau a deilliannau effeithiol, cydlynol i fodloni briffiau ffotograffiaeth	Rh2 datblygu syniadau a deilliannau blaengar, dychmygus i fodloni briffiau ffotograffiaeth
LI3 dewis deunyddiau a phrosesau priodol i fodloni briffiau ffotograffiaeth [YA, MC]	T3 cymharu a chyferbynnu gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.	Rh3 gwerthuso gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.
LI4 datblygu syniadau a deilliannau i fodloni briffiau ffotograffiaeth [YA, MC, HR, DM]		
LI5 trafod gwaith ffotograffiaeth llwyddiannus. [YA, DM, GT]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 9: Gweithio gyda Briffiau Dylunio Ffasiwn

Cod yr uned:	K/502/4859
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno briffiau dylunio ffasiwn i ddysgwyr i ganiatáu iddynt gyflawni prosiectau ym maes arbenigol ffasiwn. Bydd dysgwyr yn arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau, technegau a phrosesau arbenigol er mwyn datblygu syniadau a deilliannau sy'n adlewyrchu arfer proffesiynol cyfredol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunwyr ffasiwn yn archwilio syniadau, deunyddiau a thechnegau i ymateb i friffiau gosod neu i rai a ddiffiniwyd ganddynt eu hunain. Er mwyn datblygu eu sgiliau proffesiynol eu hunain, maent yn gweithio gyda gwahanol ddeunyddiau ac yn arbrofi'n eang i archwilio posibilrwydd cyfrwng a ddewiswyd a'i briodoldeb i'r dasg. Maent yn ymchwilio'n eang o ffynonellau gwahanol i gael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau. Mae gweithwyr proffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus i sicrhau ei fod yn cyfateb i'w bwriad creadigol a gofynion y briff.

Mae dylunio ffasiwn yn cynnwys trin deunyddiau, elfennau gweledol ac adeileddol a bodloni meini prawf gweithredol ac esthetig yn unol â thueddiadau'r farchnad. Rhaid i ddylunwyr ffasiwn allu dadansoddi briffiau'n gywir, gan nodi pa ffactorau mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu eu hymateb. Nod yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr ddeall sut i ymateb yn llwyddiannus i friff dylunio ffasiwn. Bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau i wneud hyn drwy archwilio ac arbrofi gyda'r deunyddiau, technegau a phrosesau arbenigol priodol.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau galwedigaethol drwy archwilio technegau a phrosesau drafftio patrymau ac chynhyrchu. Byddant yn ymchwilio deunyddiau traddodiadol ac eraill, a fydd yn cynnwys ffibrau naturiol a synthetig. Bydd technegau adeiladu'n cynnwys defnyddio offer llaw, peiriannau a thechnoleg gysylltiol. Bydd rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r deunyddiau a'r technegau y maent yn eu hastudio.

Mae'r uned arbenigol hon yn rhoi mewnwelediad i fywyd proffesiynol dylunydd ffasiwn. Bydd y ffocws ar yr hyn mae'r ymarferydd yn ei wneud a sut mae'n ei wneud, yn hytrach na'r manylion busnes. Ni fyddai dylunydd ffasiwn proffesiynol o reidrwydd yn creu dillad pe byddent yn gweithio yn stiwdios dylunio cwmni ffasiwn mawr. Rhaid bod gan ddylunwyr ffasiwn wybodaeth dechnegol i ganiatáu iddynt ddylunio ar gyfer gwahanol farchnadoedd. Mewn cwmni mawr, rhan o swydd dylunydd yw gweithio gyda'r dylunydd technegol i sicrhau y dehonglir eu dyluniadau ffasiwn yn ôl y bwriad.

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r math o amgylchedd stiwdio /gweithdy a'r deunyddiau, technegau a chyfarpar arbenigol a ddefnyddir gan y gweithiwr proffesiynol. Byddant yn dysgu sut mae'r angen i greu cynnyrch ymarferol yn fasnachol yn effeithio ar syniadau creadigol dylunwyr ffasiwn.

Gall dysgwyr sy'n ymchwilio dylunio ffasiwn symud ymlaen i swyddi eraill yn y diwydiant fel torrwr patrymau, datblygwr cynnyrch, technolegydd dillad, technolegydd ffabrigau, rheolwr safon, dylunydd gwisgoedd ffasiwn, rheolwr gwisgoedd theatr, cynllunydd ffasiwn, newyddiadurwr ffasiwn, rheolwr manwerthu a phrynwyr.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio technegau a phrosesau drafftio patrymau
- 2 Gallu defnyddio technegau a phrosesau adeiladu
- 3 Gallu datblygu syniadau i fodloni briffiau dylunio ffasiwn
- 4 Deall nodweddion ac ansawdd llwyddiannus gwaith dylunio ffasiwn.

Cynnwys yr uned

1 Gallu defnyddio technegau a phrosesau drafftio patrymau

Technegau a phrosesau drafftio a thorri patrymau: briff a roddwyd e.e. torri patrymau o flociau sylfaenol, creu cynlluniau a marcio patrymau, torri a marcio manylion adeiladu, defnyddio offer a chyfarpar torri a marcio yn ddiogel

2 Gallu defnyddio technegau a phrosesau adeiladu

Technegau a phrosesau adeiladu: briff a roddwyd e.e. cynllunio, proses adeiladu, semio, ymylwaith; gosodiadau; dyfeisiau sicrhau; addurniadau e.e. Velcro, sipiau, botymau, beltiau, dolenni, gleiniau a lês; gorffen; smwddio

Iechyd a diogelwch: dileu perygl iddynt eu hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn stiwdio a dilyn canllaw priodol COSHH ar ddeunyddiau; Deddf Iechyd a Diogelwch 1974

3 Gallu datblygu syniadau i fodloni briffiau dylunio ffasiwn

Briffiau dylunio ffasiwn: dillad e.e. i ddynion, menywod, plant, marchnadoedd arbenigol (diwylliant, hamdden, dillad nos, ffasiwn gyfredol); esgidiau; cyfwisgoedd; dadansoddi; nodi gofynion briff e.e. ymateb, marchnad darged, anghenion, dewisiadau; technegol; ffactorau gweithredol e.e. math, priodweddau, nodweddion, rhinweddau (deunyddiau, costau, maint y cynhyrchu, amser, perfformiad, ffit)

Deunyddiau, technegau a phrosesau: rhinweddau esthetig; ffitrwydd ar gyfer y diben; opsiynau amgen; priodweddau e.e. nodweddion, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; priodoldeb

4 Deall nodweddion ac ansawdd llwyddiannus gwaith dylunio ffasiwn

Nodweddion: dadansoddiad e.e. opsiynau amgen; archwilio priodweddau e.e. effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; priodoldeb e.e. diben, ffactorau, cyfleoedd, cyfyngiadau (amser, mynediad, cyfarpar arbenigol, adnoddau eraill, cyllideb, cynnwys), cyflwyniad; prosiectau pobl eraill, e.e. briffiau tebyg, masnachol, proffesiynol, llwyddiant (prosiectau, ymgyrchoedd, dylanwad)

Ansawdd: e.e. cymharu, bwriad gwreiddiol, rhinweddau esthetig, cryfderau, gwendidau, meysydd i'w gwella; ei waith ei hun; gwaith pobl eraill

Proses gynhyrchu: galluoedd technegol; medrau creadigol; rheoli amser; cost

Ffynonellau gwybodaeth: hunan werthuso; sylwadau gan eraill e.e. cynulleidfa, cyfoedion, tiwtoriaid, cleient; dogfennaeth e.e. nodiadau, cofnodion cyfarfodydd, nodiadau o adborth, dyddiaduron cynhyrchu, ymweliadau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 defnyddio technegau a phrosesau drafftio patrymau yn ddiogel [YA, MC, HR]	T1 defnyddio amrywiaeth o dechnegau a phrosesau drafftio patrymau yn effeithiol	Rh1 defnyddio technegau a phrosesau drafftio patrymau amrywiol yn greadigol ac yn annibynnol
LI2 defnyddio technegau a phrosesau adeiladu yn ddiogel [YA, MC, HR]	T2 defnyddio technegau adeiladu a deunyddiau, technegau a phrosesau priodol	Rh2 defnyddio technegau, deunyddiau a phrosesau adeiladu amrywiol yn greadigol ac yn annibynnol
LI3 datblygu syniadau a deilliannau i fodloni briffiau dylunio ffasiwn [YA, MC, DM, HR]	T3 datblygu syniadau a deilliannau cydlynol i fodloni briffiau dylunio ffasiwn	Rh3 datblygu syniadau a deilliannau dychmygus i fodloni briffiau dylunio ffasiwn
LI4 dewis deunyddiau, technegau a phrosesau priodol i fodloni briffiau dylunio ffasiwn	T4 cymharu a chyferbynnu gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.	Rh4 gwerthuso a chyferbynnu gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.
LI5 trafod gwaith dylunio ffasiwn llwyddiannus.		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 10:

Gweithio gyda Briffiau Tecstilau

Cod yr uned:

H/502/4861

FfCCH Lefel 2:

Tystysgrif Gyntaf BTEC

Gwerth credydau:

10

Oriau dysgu dan arweiniad:

60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno briffiau dylunio tecstilau i ddysgwyr i ganiatáu iddynt gyflawni prosiectau ym maes arbenigol tecstilau. Bydd dysgwyr yn arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau, technegau a phrosesau arbenigol er mwyn datblygu syniadau a chanlyniadau sy'n adlewyrchu arfer proffesiynol cyfredol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunwyr tecstilau yn archwilio syniadau, deunyddiau a thechnegau i ymateb i friffiau gosod neu rai wedi'u diffinio ganddynt eu hunain. Er mwyn datblygu eu sgiliau proffesiynol eu hunain, maent yn gweithio gyda gwahanol ddeunyddiau ac yn arbrofi'n eang i archwilio posibilrwydd cyfrwng dethol a'i briodoldeb i'r dasg. Maent yn ymchwilio'n eang o ffynonellau gwahanol i gael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau. Mae gweithwyr proffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus i sicrhau ei fod yn cyfateb i'w bwriad creadigol a gofynion y briff.

Mae gweithio gyda thecstilau yn cynnwys defnyddio a thrin deunyddiau, elfennau gweledol ac adeileddol a bodloni meini prawf gweithredol ac esthetig. Nod yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr ddeall sut i ymateb i friffiau tecstilau arbenigol ac i ddysgu sut mae dylunydd tecstilau proffesiynol yn gweithio. Bydd dysgwyr yn gallu datblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth drwy archwilio deunyddiau, technegau a phrosesau tecstilau arbenigol. Bydd rhaid iddynt ddysgu sut y gellir defnyddio deunyddiau mewn amrywiaeth eang o ffyrdd i greu gwahanol effeithiau a chanlyniadau i gyflawni eu bwriadau. Bydd dysgwyr yn gallu arbrofi gyda deunyddiau a thechnegau traddodiadol ac eraill er mwyn archwilio eu creadigrwydd yn llawn yn y ddisgyblaeth hon.

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau dylunio a gosod patrymau arwyneb drwy dechnegau a phrosesau tecstilau arbenigol gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau a deunyddiau. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda'r offer a'r cyfarpar arbenigol cyfatebol, a bydd dysgwyr yn dysgu i'w defnyddio ac i ofalu amdanynt yn ofalus ac yn gywir. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r deunyddiau a'r technegau y maent yn eu hastudio.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau tecstilau
- 2 Gallu datblygu gwaith i fodloni briffiau tecstilau
- 3 Deall nodweddion llwyddiannus ac ansawdd gwaith tecstilau.

Cynnwys yr uned

1 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau tecstilau

Deunyddiau tecstilau: ffabrig e.e. naturiol, synthetig, tryloyw, di-draidd, pwysau, tecstilau; edafedd e.e. wedi'u troi â llaw, cnu, peiriant, brodwaith, tapestri; inc; arlliw e.e. arlliw inc, amlddiben; deunyddiau e.e. nad ydynt yn draddodiadol, wedi'u canfod (gwifren cwt ieir, clai, gwydr, papur, gwair, brigau, cerrig bach)

Technegau a phrosesau: brodwaith e.e. llaw, peiriant; dulliau adeiladu e.e. gwehyddu, gweu, gwneud ffelt; argraffu e.e. bloc, mono, stensil, gwrthsefyll; cydosod e.e. torri, uno, adeiladu

Iechyd a diogelwch: Deddf Iechyd a Diogelwch 1974; dileu perygl iddynt eu hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn stiwdio; dilyn arweiniad COSHH priodol ar ddeunyddiau ac arfer gweithdy

2 Gallu datblygu gwaith i fodloni briffiau tecstilau

Briffiau tecstilau: anghenion swyddogaethol e.e. dylunio ffabrig ffasiwn, ffabrig dylunio mewnol; ystyriaethau esthetig e.e. ffurfiau 2D, 3D; dadansoddiad e.e. diben, marchnad darged, anghenion, dewisiadau, ffactorau technegol, proses gynhyrchu (argraffu, gwehyddu, gweu, brodwaith, gwneud ffelt), cost, perfformiad, maint, arfer proffesiynol cyfoes

Dewis deunyddiau, technegau a phrosesau: rhinweddau esthetig; addasrwydd i'r diben (opsiynau amgen, nodweddion, priodweddau, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol, addasrwydd y deunyddiau)

3 Deall nodweddion llwyddiannus ac ansawdd gwaith tecstilau

Nodweddion: dadansoddiad e.e. opsiynau amgen; archwilio priodweddau e.e. effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; priodoldeb e.e. diben, ffactorau, cyfleoedd, cyfyngiadau (amser, mynediad, cyfarpar arbenigol, adnoddau eraill, cyllideb, cynnwys), cyflwyniad; prosiectau pobl eraill, e.e. briffiau tebyg, masnachol, proffesiynol, llwyddiant (prosiectau, ymgyrchoedd, dylanwad)

Ansawdd: e.e. cymharu, bwriad gwreiddiol, rhinweddau esthetig, cryfderau, gwendidau, meysydd i'w gwella; ei waith ei hun; gwaith pobl eraill

Proses gynhyrchu: galluoedd technegol; medrau creadigol; rheoli amser; cost

Ffynonellau gwybodaeth: hunan werthuso; sylwadau gan eraill e.e. cynulleidfa, cyfoedion, tiwtoriaid, cleient; dogfennaeth e.e. nodiadau, cofnodion cyfarfodydd, nodiadau o adborth, dyddiaduron cynhyrchu, ymweliadau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau tecstilau'n ddiogel [YA, MC, HR]	T1 defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau i fodloni briff yn gydlynol ac yn effeithiol	Rh1 defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau amrywiol i fodloni briff yn greadigol ac yn annibynnol
LI2 datblygu syniadau a deilliannau i fodloni briffiau tecstilau [MC, DM, HR]	T2 datblygu syniadau a deilliannau effeithiol i fodloni briffiau tecstilau	Rh2 datblygu syniadau a deilliannau dychmygus i fodloni briffiau tecstilau
LI3 dewis deunyddiau, technegau a phrosesau priodol i fodloni briffiau tecstilau [YA]	T3 cymharu a chyferbynnu gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.	Rh3 gwerthuso a chyferbynnu gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.
LI4 trafod gwaith tecstilau'n llwyddiannus.		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 11: Gweithio gyda Briffiau Dylunio 3D

Cod yr uned:	K/502/4862
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr archwilio, arbrofi a deall sut i ymateb i friffiau dylunio 3D. Bydd yr uned yn cynnwys dysgwyr yn ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd addas i'r briff.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunwyr yn archwilio syniadau, deunyddiau a thechnegau i ymateb i friffiau gosod neu i rai wedi'u diffinio ganddynt eu hunain. Er mwyn datblygu eu sgiliau proffesiynol, maent yn gweithio gyda gwahanol ddeunyddiau ac yn arbrofi'n eang i archwilio posibilrwydd cyfrwng dethol a'i briodoldeb i'r dasg. Maent yn ymchwilio'n eang o ffynonellau gwahanol i gael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau. Mae gweithwyr proffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus i sicrhau ei fod yn cyfateb i'w bwriad creadigol a gofynion y briff.

Gallu hanfodol i ddylunio 3D yw'r gallu i gyfleu strwythurau 3D drwy gyfryngau drafftio 2D, gyda defnydd cynyddol o feddalwedd digidol. Rhan werthfawr o waith ymchwil dysgwr fydd dysgu beth mae dylunio 3D cyfoes yn ei wneud, a'r amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnegau posib y maent yn eu defnyddio i gyfleu eu syniadau yn fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr yn ymchwilio celf weledol hanesyddol a diwylliannol i archwilio adnoddau a chyfyngiadau tebyg. Bydd eu hymchwilio eang yn cyfeirio eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio deunyddiau a thechnegau 3D i fynegi eu bwriadau creadigol. Bydd dysgwyr yn adolygu'r cynnydd ac yn mireinio proses eu gwaith drwy ddadansoddiad parhaus a therfynol i ymateb i'r briffiau a roddwyd.

Bydd dysgwyr yn archwilio ac yn arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau gwrthiannol ac anwrthiannol i archwilio trin, dylanwadu a phosibiliadau creadigol deunyddiau a thechnegau dylunio 3D. Bydd hyn yn cynnwys technegau creu 3D i gerfio, adeiladu a modelu, sy'n hanfodol i ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau a thechnegau'n llwyddiannus. Bydd rhaid i ddysgwyr ddysgu sut i ofalu am offer a chyfarpar 3D arbenigol ac i'w defnyddio'n gywir. Byddant hefyd yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r deunyddiau a'r technegau y maent yn eu hastudio.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau dylunio 3D
- 2 Gallu datblygu syniadau i fodloni briffiau dylunio 3D
- 3 Deall nodweddion ac ansawdd llwyddiannus gwaith dylunio 3D.

Cynnwys yr uned

1 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau dylunio 3D

Prosesau dylunio 3D: cynllunio, creu e.e. adeiladu, cerfio, mowldio, drilio, trwsio, uno, castio, CAD/CAM, gwehyddu, cydosod

Deunyddiau 3D: e.e. deunyddiau anwrthwynebiad (plastr, cerdyn, papur, pren ysgafn, llinyn, gwifren feddal, llen blastig, glud ac adlynion), deunyddiau gwrthiannol (gwydr, metelau, pren, cynnyrch pren a phlastig cadarn)

Iechyd a diogelwch: Deddf Iechyd a Diogelwch 1974; dileu perygl iddynt eu hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn stiwdio a dilyn arweiniad COSHH priodol ar ddeunyddiau a thechnegau

2 Gallu datblygu syniadau i fodloni briffiau dylunio 3D

Briffiau dylunio 3D: cynnyrch e.e. cerameg, dodrefn, goleuadau, nwyddau defnyddwyr a thrydanol, cynnyrch diwydiannol, mewnol, amgylcheddau, arddangosiadau manwerthu, arddangosfeydd; dadansoddi briffiau; ymateb e.e. marchnad darged, anghenion, dewisiadau; swyddogaethau e.e. ffactorau technegol, maint, graddfa, perfformiad, symlder defnyddio, cost, dull, maint y cynhyrchiad

Dewis deunyddiau a thechnegau: rhinweddau e.e. addasrwydd i'r diben, estheteg, dewisiadau amgen; archwilio priodweddau e.e. nodweddion, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol

Bodloni'r briff: e.e. diben arteffact, ffactorau, cyfleoedd, cyfyngiadau (amser, mynediad, deunyddiau gweithio, cyfarpar arbenigol, adnoddau eraill, cyllideb, cynnwys), cyflwyniad; prosiectau pobl eraill, e.e. briffiau tebyg, cymuned, masnachol, proffesiynol, llwyddiant (prosiectau, cynulleidfa, dylanwad)

3 Deall nodweddion ac ansawdd llwyddiannus gwaith dylunio 3D

Nodweddion: dadansoddiad e.e. opsiynau amgen; archwilio priodweddau e.e. effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; priodoldeb e.e. diben delwedd, ffactorau, cyfleoedd, cyfyngiadau (amser, mynediad, celfi, offer arbenigol, adnoddau eraill, cyllideb, cynnwys), cyflwyniad. prosiectau pobl eraill, e.e. briffiau tebyg, masnachol, proffesiynol, llwyddiant (prosiectau, ymgyrchoedd, dylanwad)

Ansawdd: e.e. cymharu, bwriad gwreiddiol, rhinweddau esthetig, nodweddion technegol, cynaliadwyedd, cryfderau, gwendidau, meysydd i'w gwella; ei waith ei hun; gwaith pobl eraill

Gwaith dylunio 3D: ei waith ei hun; gwaith pobl eraill e.e. cyfoedion, gweithwyr proffesiynol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau dylunio 3D yn ddiogel [YA, MC, HR, DM]	T1 defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau dylunio 3D yn effeithiol	Rh1 integreiddio deunyddiau, technegau a phrosesau dylunio 3D amrywiol yn greadigol ac yn annibynnol
LI2 dewis deunyddiau, technegau a phrosesau priodol i fodloni briffiau dylunio 3D [MC, GT, HR]	T2 datblygu syniadau a deilliannau effeithiol a chydlynol i fodloni briffiau dylunio 3D	Rh2 datblygu syniadau a deilliannau dychmygus i fodloni briffiau dylunio 3D
LI3 datblygu syniadau a deilliannau i fodloni briffiau dylunio 3D [YA, MC]	T3 cymharu a chyferbynnu gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.	Rh3 gwerthuso gwaith creadigol arbrofol, datblygiadol a therfynol.
LI4 trafod gwaith dylunio 3D llwyddiannus. [YA, DM]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 12: Gweithio gyda Briffiau Cyfryngau Rhyngweithiol

Cod yr uned:	T/502/4864
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr ddeall sut i ymateb i friffiau cyfryngau rhyngweithiol. Bydd dysgwyr yn ymchwilio ac yn archwilio posibiliadau creadigol syniadau a thechnegau cyfryngau rhyngweithiol o friffiau eu hunain neu a roddwyd.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cyfryngau rhyngweithiol yn cynnwys defnyddio sgiliau dylunio a rhaglennu a thechnoleg ddigidol i greu deilliannau rhyngweithiol sy'n cyfuno sain, testun a delweddau. Mae gweithwyr proffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus i sicrhau ei fod yn cyfateb i'w bwriad creadigol a gofynion y briff.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn gallu datblygu eu sgiliau proffesiynol drwy weithio gyda gwahanol gyfryngau digidol a rhai eraill ac arbrofi'n eang i archwilio potensial ac addasrwydd i'r dasg. Bydd hyn yn cynnwys dysgwyr yn ymchwilio i sut y cyflawnir cyfathrebu rhyngweithiol effeithiol o fewn dylunio cyfryngau rhyngweithiol. Bydd dysgwyr yn gwerthuso gwahanol ffynonellau i gael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau. Byddant yn ymchwilio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, yn archwilio sut y dyluniwyd testun a delweddau, ac yn dysgu sut y dylunnir sain a cherddoriaeth i wella ac ategu gwybodaeth.

Bydd dysgwyr yn gallu dylunio rhyngwynebau hawdd eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu effeithiol. Rhan werthfawr o'r ymchwil fydd dysgu beth mae dylunydd cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol proffesiynol cyfoes yn ei wneud, a'r amrywiaeth o dechnegau digidol ac eraill posib y maent yn eu defnyddio. Bydd dysgwyr yn adolygu'r cynnydd ac yn mireinio proses eu gwaith drwy ddadansoddiad parhaus. Dylai'r briffiau cyfryngau rhyngweithiol a roddir gael eu dylunio mewn cyd-destun galwedigaethol, a dylent hybu a chymhell dysgwyr i archwilio eu syniadau'n greadigol i gynhyrchu deilliannau gwreiddiol. Bydd rhaid dangos i ddysgwyr sut i ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar arbenigol y byddant yn eu defnyddio yn yr uned hon.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu datblygu syniadau a deilliannau i fodloni briffiau cyfryngau rhyngweithiol
- 2 Gallu ymchwilio i'r defnydd o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Gallu defnyddio technegau a thechnoleg digidol
- 4 Gallu adolygu gwaith cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol.

Cynnwys yr uned

1 Gallu datblygu syniadau a deilliannau i fodloni briffiau cyfryngau rhyngweithiol

Briffiau cyfryngau rhyngweithiol: e.e. briffiau dylunio i wefannau, DVDs, CD-ROMs, teledu rhyngweithiol, gemau cyfrifiadur

Diben: e.e. addysgol, adloniant, gwybodaeth, hyfforddi, arddangos technegau arbenigol

Dadansoddi briffiau: e.e. marchnad darged; anghenion a dewisiadau; neges(euon); gwybodaeth; cyfathrebu; cynnwys; diben

Cyfyngiadau: e.e. cyllideb, amserlen, adnoddau, cyfreithiol a moesegol, ffactorau technegol, dull atgynhyrchu, nifer y lliwiau, defnydd o logo, cysylltiadau â chynnyrch arall

Dewis deunyddiau, technegau a phrosesau: e.e. priodweddau technegol ac esthetig, addasrwydd i'r diben; priodweddau e.e. nodweddion, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; deunyddiau, technegau

2 Gallu ymchwilio i'r defnydd o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol: e.e. DVDau, CD-ROMau, teledu rhyngweithiol, gemau cyfrifiadur, gwefannau dyfeisiau symudol, y rhyngwrwyd

Cynulleidfa darged: e.e. oedran, rhyw, demograffig, dull o fyw, cyflwyniad, testun, sain, delweddau, llywio

Hygyrchedd: e.e. grwpiau defnyddwyr, symlder ei ddefnyddio, rhyngweithiol, platfformau, cydgyfeirio

3 Gallu defnyddio technegau a thechnoleg digidol

Datblygu: e.e. cais cynnig, byrddau hwyliu, llyfrau braslunio, byrddau stori, diagramau cynllun, log cynhyrchu

Cynhyrchu asedau: e.e. sganwyr, offer meddalwedd, awduro gwe, testun awduro cyfryngau rhyngweithiol; delweddau digidol e.e. ffotograffiaeth ddigidol, llyfrgelloedd, fideo digidol, gwe-gamera, ffôn symudol, ffrydio; sain e.e. effeithiau, llais, cerddoriaeth; diagramau system ar gyfer prototeipiau; siartiau llif i gynllunio llywio i ddefnyddwyr.

Cynhyrchiad: e.e. llywio, rheoli, teipograffeg, graffeg, cynllun, lliw, sain, fideo, animeiddio, golygu, botymau i gysylltu fframiau

4 Gallu adolygu gwaith cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol

Gwerthuso ei gynnyrch terfynol ei hun: e.e. cymharu â'r bwriad gwreiddiol; nodweddion technegol; rhinweddau esthetig; cyfyngiadau

Gwerthuso gwaith cyfryngau rhyngweithiol pobl eraill: e.e. enghreifftiau a ymchwiliwyd, gwefannau, DVDau, CD-ROMau, teledu rhyngweithiol, gemau cyfrifiadur

Proses gynhyrchu: e.e. galluoedd technegol; medrau creadigol; rheoli amser

Ffynonellau gwybodaeth: e.e. hunan werthuso; sylwadau gan eraill e.e. cynulleidfa, cyfoedion, tiwtoriaid, cleient; dogfennau e.e. cofnodion cyfarfodydd, cofnodion cynhyrchu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 datblygu syniadau a deilliannau terfynol i fodloni briffiau cyfryngau rhyngweithiol [YA]	T1 datblygu syniadau a deilliannau effeithiol i fodloni briffiau cyfryngau rhyngweithiol yn bwrpasol	Rh1 datblygu syniadau a deilliannau dychmygus yn annibynnol i fodloni briffiau cyfryngau rhyngweithiol
LI2 dewis deunyddiau, technegau a phrosesau ar gyfer briff cyfryngau rhyngweithiol [MC]	T2 dewis amrywiaeth eang o ddeunyddiau, technegau a phrosesau ar gyfer briff cyfryngau rhyngweithiol	Rh2 dewis amrywiaeth eang o ddeunyddiau, technegau a phrosesau wedi'u dewis yn dda ac yn annibynnol ar gyfer briff cyfryngau rhyngweithiol
LI3 ymchwilio i'r defnydd o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol [DM, MC]	T3 ymchwilio a chymharu'r defnydd o amrywiaeth eang o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol	Rh3 ymchwilio a gwerthuso'r defnydd o amrywiaeth cynhwysfawr o gynnyrch cyfryngau rhyngweithiol yn annibynnol
LI4 cynhyrchu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan integreiddio lluniau, testun a sain [GT, HR]	T4 cynhyrchu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol effeithiol a deallus gan integreiddio lluniau, testun a sain	Rh4 cynhyrchu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol dychmygus yn annibynnol gan integreiddio lluniau, testun a sain
LI5 disgrifio gwaith cyfryngau rhyngweithiol. [DM]	T5 cymharu a chyferbynnu gwaith cyfryngau rhyngweithiol.	Rh5 gwerthuso gwaith cyfryngau rhyngweithiol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 13: Gweithio gyda Briffiau Celf Weledol

Cod yr uned:	A/502/4865
FfCCH Lefel 2:	Tystysgrif Gyntaf BTEC
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu galluedd dysgwyr i ymchwilio, archwilio a datblygu syniadau celf weledol o friffiau a ddiffinnir ganddynt hwy eu hunain neu rai gosod. Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ymchwilio drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth a chyfeiriadau sy'n ysbrydoliaeth wrth gynhyrchu a datblygu eu syniadau i greu canlyniadau celf, crefft a dylunio 2D a 3D.

Cyflwyniad i'r uned

Mae artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr yn archwilio syniadau, deunyddiau a thechnegau celf weledol i ymateb i friffiau a ddiffinnir ganddynt eu hunain neu rai gosod. Er mwyn datblygu eu sgiliau proffesiynol eu hunain, mae artistiaid yn gweithio gyda gwahanol ddeunyddiau ac yn arbrofi'n eang i archwilio posibilrwydd cyfrwng dethol a'i briodoldeb i'r dasg. Maent hefyd yn ymchwilio ffynonellau gwahanol yn eang i gael ysbrydoliaeth i'w helpu i ddatblygu syniadau. Mae gweithwyr proffesiynol yn adolygu cynnydd eu gwaith yn barhaus i sicrhau ei fod yn cyfateb i'w bwriad creadigol a gofynion y briff.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn gweithio gyda briffiau celf weledol i ymchwilio, archwilio a datblygu syniadau celf weledol. Bydd hyn yn cynnwys dysgwyr yn cynnal eu gwaith ymchwil eu hunain gydag amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd priodol i'w briff. Rhan werthfawr o'u hymchwil fydd dysgu beth mae gweithiwr proffesiynol celf weledol cyfoes yn ei wneud, a'r amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnegau y maent yn eu defnyddio i gyfleu eu syniadau yn fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr yn ymchwilio celf weledol hanesyddol a diwylliannol i nodi tebygrwyddau a chyfyngiadau tebyg. Bydd eu hymchwil yn hysbysu dealltwriaeth dysgwyr o sut i ddefnyddio deunyddiau a thechnegau celf weledol i fynegi eu bwriad creadigol. Bydd dysgwyr yn adolygu eu cynnydd ac yn mireinio proses eu gwaith drwy ddadansoddiad parhaus a therfynol mewn ymateb i'r briffiau a roddir.

Mae celf weledol yn cynnwys amrywiaeth eang o fannau cychwyn posib, gan gynnwys celf, crefft a dylunio 2D a 3D. Felly gall briffiau fod yn amrywiol i ddiwallu anghenion a chymhelliant dysgwyr, ond dylid eu gosod o fewn cyd-destun galwedigaethol.

Canlyniadau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai'r dysgwr:

- 1 Gallu ymchwilio ffynonellau cynradd ac eilaidd a chofnodi ohonynt mewn ymateb i friff celf weledol
- 2 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau celf weledol
- 3 Gallu datblygu syniadau a chanlyniadau i fodloni briffiau celf weledol
- 4 Deall nodweddion ac ansawdd llwyddiannus gwaith celf weledol.

Cynnwys yr uned

1 Gallu ymchwilio ffynonellau cynradd ac eilaidd a chofnodi ohonynt i ymateb i friff celf weledol

Ymchwil: ffynonellau cynradd e.e. arlunio arsylwi, peintio, ffotograffiaeth, fideo; y testun e.e. gwrthrychau, lleoedd, pobl, orielau, arddangosfeydd, amgueddfeydd; ffynonellau eilaidd e.e. deunydd wedi'i argraffu, ar sgrin, cyhoeddiadau, ffotograffau, llungopiau, cardiau post, llyfrgelloedd, ffynonellau clyweled

Cofnodi: deunyddiau e.e. graffit, siarcol, pen, inc, golch, pasteli olew, sialc, offer wedi'i wneud â llaw, camerâu; technegau; prosesau e.e. peintio, arlunio, montage, collage, ffotograffiaeth, fideo, sganio digidol, dylanwadu, argraffu, modelu, nodiadau cyfweld, cyfweliadau wedi'u recordio â gwneuthurwyr, anodiadau mewn llyfrau arlunio, blogiau; elfennau ffurfiol e.e. llinell, tŵn, ffurf, lliw, gwead, patrwm

Briffiau celf weledol: dadansoddiad; gofynion y prosiect; cyfyngiadau; ymchwil; ffocws; ymchwiliad; datblygu; adolygu; angen gwybodaeth ychwanegol; datblygu gwaith

2 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau celf weledol

Ymchwilio a defnyddio: e.e. arbrofi, profi, casgliadau patrymau, darnau prawf, maquettes, brasluniau, profi a methu, trin, ymchwilio, dadansoddi

Deunyddiau, technegau a phrosesau: deunyddiau e.e. graffit, siarcol, pen, inc, golch, pasteli olew, sialc, offer wedi'i greu â llaw; technegau e.e. montage, collage, ffotograffiaeth, sganio digidol, trafod, gwneud print, modelu; prosesau e.e. gwaith wedi'i gomisiynu, ymchwilio personol, haniaeth, copïo, graddio, gwaith cydweithredol, penodol i'r safle, cyfyngiadau, amcanion, traddodiadol, cyfryngau newydd; elfennau ffurfiol e.e. llinell, tŵn, ffurf, lliw, gwead, patrwm

Iechyd a diogelwch: arfer gweithdy, asesu risgiau; arweiniad iechyd a diogelwch COSHH ar ddeunyddiau; Deddf Iechyd a Diogelwch 1974

3 Gallu datblygu syniadau a deilliannau i fodloni briffiau celf weledol

Cynllunio a datblygu gwaith: cynllunio e.e. dadansoddiad, cynnig prosiect, ymchwil, cyfryngau a deunyddiau, syniadau amgen, lluniadau gweithio, datblygu e.e. adolygu, gwerthuso, mireinio syniadau; gwaith e.e. brasfodelau, byrddau stori, printiau, darnau prawf, maquettes; gwaith terfynol e.e. 2D, 3D, ar sail amser, cyfryngau cymysg, cyfryngau newydd

